**<u>Nodaidau am sefydliadau yn y Wladfa (sefyllfa 2012)</u>**

## Sefydliadau Cymreig a lled Gymreig y Wladfa

Dylai dathliadau 2015 adael gwaddol ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod (y rhai a fydd ymhen 50 mlynedd yn ymboeni parthed dathliadau'r dauganmlwyddiant) – nid gwaddol ariannol o reidrwydd (er mai braf iawn fyddai medru sicrhau hynny hefyd) ond o safbwynt creu ymwybyddiaeth am y gwladychu ledled Chubut ac am ymdrechion glew cenedlaethau o drigolion gwladfeydd Dyffryn Camwy a'r Andes i gynnal yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn fyw yn yr Ariannin cyhyd. Gyda hyn mewn golwg, teimlaf fod yna rai sefydliadau y dylid eu gwarchod a'u cryfhau, rhag iddynt fynd allan o fodolaeth yn ystod y degawdau nesaf. I'r graddau y gellir manteisio ar y dathliadau arfaethedig i'w diogelu a'u cyllido yn briodol, dyna fydd mesur ein llwyddiant, yn fy marn i. Nid ein cyfrifoldeb ni yng Nghymru yw'r gwaith o'u hariannu, ond efallai y medrwn ddylanwadu ar arweinyddion Cymreig Chubut a hefyd, drwy gysylltiadau pobl fel ein Llywydd, ddarganfod drysau y gall arweinyddion Cymreig y dalaith guro arnynt i ofyn am nawdd (cwmnïau mawr megis BP sy'n gweithio yn y dalaith).

Dyma'r sefydliadau y medraf gofio amdanynt (mewn trefn fympwyol) ond dichon fod yna sawl un arall y gellid eu hychwanegu at y rhestr a dweud mwy amdanynt:

<u>**01) Cymdeithas Addysg a Diwylliant Camwy** (sy'n rhedeg Colegio Camwy ac Amgueddfa Wladfaol y Gaiman)</u>. Pobl fy nghenedlaeth i ac ychydig yn hŷn a sefydlodd y gymdeithas yn 1963, a'r gwir trist yw mai'r un genhedlaeth (gydag ychydig ychwanegiadau) sy'n dal i'w rhedeg. Maent yn bobl ardderchog sydd wedi rhoi cyfraniad amhrisiadwy ond, yn anochel, maent wedi colli peth o'r egni oedd yn eu gwthio ymlaen ddeugain mlynedd a mwy yn ôl. Yn ogystal, ofnaf mai tenau iawn yw'r haen sy'n darparu'r arweinyddiaeth a bod y gymdeithas hon wedi dibynnu'n ormodol ar ymdrechion clodwiw un person galluog, grymus ac ymroddedig.

Y cam cyntaf ymlaen fyddai denu pobl gymwys yn y band oedran 30-60 oed i gymryd yr awenau; pobl sy'n weithgar, egnïol, ac yn meddu ar weledigaeth. Yn y modd hwnnw, byddai cyfartaledd oedran aelodau pwyllgor y gymdeithas yn gostwng yn ddramatig - ac mi fyddai seiliau'r gymdeithas yn ehangu hefyd. Ac mae angen llawer iawn o arian arnynt!

Mae <u>Ysgol Camwy</u> mewn sefyllfa fregus oherwydd ei bod, yn wahanol i ysgolion eraill y dref, yn gorfod codi ffi fisol fechan ar bob disgybl ac nad yw llawer o'r teuluoedd yn medru fforddio ei thalu. Hefyd, prin yw ei hadnoddau. Mae'n hanfodol felly i GAaDyC ddechrau ystyried ei dyfodol ariannol. Mae hi'n ysgol werthfawr iawn, yn cynnig addysg safonol ac yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith ym mhob ystod oedran. [Mae penodiad Ana Pinciroli, sy'n medru siarad rhywfaint o Gymraeg ac yn weithgar iawn gydag Eisteddfod y Bobl Ifanc a gweithgareddau Cymraeg eraill, yn Bennaeth newydd i'r ysgol yn ymddangos yn gam cadarnhaol sy'n cynnig gobaith yn y tymor byr.]

Mae'r <u>Amgueddfa</u> wedi bod yn destun pryder i lawer o bobl sy'n teimlo bod angen ehangu'r adeilad; moderneiddio'i delwedd (drwy ail gynllunio'r modd y mae creiriau

a dogfennau yn cael eu harddangos); a threfnu oriau agor rheolaidd. Dyma'r lle delfrydol i osod arddangosfa fyddai'n adrodd hanes y Wladfa cam wrth gam. Tasg ddrudfawr, ond mi fyddai'n cynyddu ei hatyniad ac, o ganlyniad, ei derbyniadau.

**02) Ysgol Gerdd y Gaiman.** Mae'r ysgol hon yn bwysig iawn i gymuned Gymraeg Dyffryn Camwy. Er mai un o ysgolion y dalaith yw hi, mae hi'n dibynnu'n helaeth iawn ar gefnogaeth rhieni a thrigolion yr ardal. Mae hi'n gwasanaethu y Gaiman ac ardaloedd gwledig cyfagos (Bryn Crwn, Bryn Gwyn, Treorci, ac ati), ac mae'r disgyblion yn dod o bob cefndir a thras dan haul. Mae'n manteisio ar draddodiad cerddorol Cymru (canu corawl yn enwedig) i hybu'r iaith drwy ddysgu plant, ieuenctid ac oedolion i'w defnyddio i ganu. Mae hi hefyd yn hybu'r traddodiad Dawnsio Gwerin Cymreig. Yr ysgol hon sy'n darparu'r nifer uchaf o gystadleuwyr o ddigon yn Eisteddfod y Bobl Ifanc ac Eisteddfod y Wladfa. Yn anffodus, nid yw'r adeilad sydd yn gartref iddi yn ddigon mawr nac addas ar gyfer y gwaith, ac mae yna fygythiad i'w symud i adeilad mwy ond sydd eisoes yn gartref i ysgol arall (canlyniad: llai o le). Yn ogystal, mae angen cyflenwad o offerynnau cerdd safonol arnynt. Clywir y dyddiau hyn fod yna beryg i'r ysgol gael ei llyncu gan Ysgol Gelfyddyd Chubut (i arbed arian), ac mi fyddai hynny'n golled aruthrol i gefnogwyr y Gymraeg a'r traddodiad cerddorol Cymreig yn Nyffryn Camwy.

**03) Ysgol yr Hendre** (ysgol gynradd ddwyieithog Trelew). Heb amheuaeth dyma enghraifft ardderchog o sut y gall criw o bobl sy'n barod i weithio, i gnocio drysau, i oresgyn siomedigaethau, i chwilio am gefnogaeth darpar rieni, gwleidyddion, arbenigwyr, ac ati, lwyddo i wireddu gweledigaeth. Mae ganddynt ddau adeilad. Un ar gyfer yr Ysgol Feithrin yng nghanol y dref, a'r Ysgol Gynradd mewn adeilad pwrpasol newydd sbon ar ei chyrion (er bod yr adeilad hwn yn barod, nid yw'n cael ei ddefnyddio oherwydd fod rhywun wedi camddeall syms ac wedi archebu pibau nwy sydd tua 40 metr yn brin o dir yr ysgol!). Nid yw'n cael ei chydnabod yn llawn gan y llywodraeth fel ysgol ddwyieithog, a'r ysgol ei hun sy'n gorfod dod o hyd i'r arian i gyflogi a lletya athro/athrawes Gymraeg. Pe na bai ond am ei blaengarwch, mae'r ysgol yn haeddu pob cefnogaeth y gellir ei roi iddi.

**04)** Ers nifer o flynyddoedd, bellach, mae nifer o rieni plant sydd mewn oedran ysgol gynradd, wedi bod yn lobïo'r llywodraeth lleol a thaleithiol am ysgol gynradd ddwyieithog yn y Gaiman. Peth amser yn ôl, cyflwynwyd cais ffurfiol i Lywodraeth Chubut ond ni ddaeth dim ohono hyd yn hyn (deëllir fod y llywodraeth yn gwrthod ystyried sefydlu ail ysgol "Gymraeg" nes i drafferthion Ysgol yr Hendre gael eu clirio). Dywedodd yr Athro R. O. Jones yn ddiweddar mai'r dref fechan hon yw'r lle gorau yn y dalaith ar gyfer sefydlu ysgol ddwyieithog Cymraeg/Sbaeneg o gofio pa mor glywadwy yw'r iaith yno o hyd. Oherwydd fod nifer o flynyddoedd wedi mynd heibio heb i'r freuddwyd hon gael ei gwireddu, gorfodwyd llawer o'r rhieni i anfon eu plant i ysgolion eraill. O ganlyniad, mae gwaith ardderchog yr Ysgol Feithrin (a wobrwywyd yn ddiweddar gan Fudiad Ysgolion Meithrin Cymru) yn mynd ar goll oherwydd diffyg dilyniant ar draws yr oedrannau ysgol. Petasai'r Gaiman yn llwyddo i wireddu'r freuddwyd hon, mi fyddai plant y dref yn medru derbyn y Gymraeg fel rhan o'u haddysg o'r oedran Meithrin hyd at gwblhau eu haddysg uwchradd.

**05) <u>Cymdeithas Dewi Sant</u>.** Dyma gymdeithas a sefydlwyd gan y gwladfawyr ac a fu'n gyfrifol am arwain popeth pwysig ym mywyd Cymreig a Chymraeg y Wladfa am flynyddoedd lawer. Er iddi wanhau am nifer o flynyddoedd, mae hi'n parhau i weithredu ac i gynnal nifer o gyfarfodydd sydd bellach yn rhan o galendar blynyddol Dyffryn Camwy. Hi yw perchennog Neuadd Dewi Sant, un o neuaddau mwyaf Trelew. Yn ystod cyfnod o ddifaterwch mawr tua chanol y ganrif ddiwethaf, bu bron a cholli ei perchnogaeth ar yr adeilad. Llwyddwyd i osgoi'r gwarth hwnnw, ond mae'r neuadd - sydd wedi'i lleoli reit yng nghanol y ddinas - yn cael ei rhentu (i gynnal cystadlaethau Bingo!). Dylai ad-ennill defnydd llawn o'r neuadd fod yn un o flaenoriaethau'r cyfnod hwn. O wario i'w haddasu, medrai fod yn neuadd gyngerdd/neuadd arddangos ardderchog a/neu yn ganolfan ddiwyllianol bwysig ac yn ffenest arddangos wych i Gymreictod Trelew. Nid yw'n dasg amhosib er y bydd angen ewyllys gref, llawer iawn o waith, ac ie, llawer o arian hefyd.

**06) <u>Canolfan Gymraeg yr Andes</u>.** Canolfan gymharol newydd yw hon hefyd, a godwyd drwy ymgyrch a arweiniwyd gan yr athrawes gyntaf (sef Hazel Charles Evans, sy' nawr yn aelod gwerthfawr o'r pwyllgor hwn) a anfonwyd yno gan Gynllun y Gymraeg yn Chubut. Ers ei sefydlu, mae'r ganolfan yn cynnig ffocws i weithgareddau Cymraeg Esquel. Bydd ei pharhad yn dibynnu ar weithgaredd criw bach iawn o bobl ymroddgar. Dywedir wrthyf fod Cymdeithas Gymraeg yr Andes wedi'i rhannu yn ddwy – Cymdeithas Gymraeg Esquel a Chymdeithas Gymraeg Trevelin/Cwm Hyfryd. Nid yw'n eglur ar hyn o bryd ai arwydd o gryfder neu o wendid yw hyn. Mae yno gnewyllyn o weithwyr eiddgar ac mae un ohonynt, Isaías Grandis, wedi ennill ei le ar restr fer Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru eleni (yr ail un o'r Andes i ennill y fraint honno). Rhaid gwneud pob ymdrech i gynnal breichiau'r cyfeillion hyn.

**07) <u>Museo del Desembarco</u>.** Amgueddfa fechan yw hon a sefydlwyd, fel mae ei henw yn awgrymu, nid nepell o'r fan lle glaniodd y 'Mimosa' yn 1865, ger Porth Madryn, drwy ymdrechion Fernando a Nelcis Coronato yn bennaf. Ychydig flynyddoedd yn ôl bu ymgais ar ran Cyngor y Ddinas i'w chau, er mwyn defnyddio'r adeilad at bwrpas masnachol. Dim ond o ganlyniad i brotest gref gan bobl y ddinas a thu hwnt y llwyddwyd i'w hachub – ond am ba hyd? Yn sicr, mae hwn yn adnodd gwerthfawr, ac mae'n haeddu pob cefnogaeth.

**08) <u>Comodoro Rivadavia a Sarmiento</u>.** Bach iawn yw'r cymunedau Cymreig yn y canolfannau hyn, ond mae yma arwyddion o adfywiad ers nifer o flynyddoedd, ac maent yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r dathliadau. Mae <u>Cymdeithas Dewi Sant Comodoro</u> yn trefnu dosbarthiadau Cymraeg i ddysgwyr yn ogystal â hyfforddi partïon Dawnsio Gwerin, ac mae ganddi ei hadeilad ei hun a hwnnw'n cael defnydd cyson. Mae yna gnewllyn bychan yno sy'n gefnogol iawn i Eisteddfod y Wladfa. Dylid ymdrechu i ddarganfod eu hanghenion ac i'w cynorthwyo.

**09) <u>Eisteddfod y Wladfa ac Eisteddfod y Bobl Ifanc</u>**. Dyma ddwy brifwyl y Wladfa, sy'n denu cystadleuwyr o bob cwr o'r dalaith a thu hwnt. Sefydlwyd y gyntaf yn 1865 ac ail sefydlwyd hi union ganrif yn ddiweddarach, a chynhaliwyd hi yn ddi-dor oddi ar hynny. Sefydlwyd yr ail yn 1867 fel adran o EyW a thyfodd yn ddigon mawr i sefyll ar ei thraed ei hun fel gŵyl lled annibynnol ac mae nifer ei chystadleuwyr yn uwch na rhai y fam-Eisteddfod (ond mae ei chyllid yn dal i fod ynghlwm wrth honno). Mae angen cryfhau'r gyfundrefn lywodraethol yn achos y ddwy ŵyl. Unwaith eto, mae angen llawer mwy o arian arnynt i sicrhau eu dyfodol a'u datblygiad.

[Cynhelir pedair o eisteddfodau llai hefyd: Eisteddfod Trevelin; Eisteddfod Mimosa (Porth Madryn); Eisteddfod capel Bethel (Y Gaiman); ac Eisteddfod Ysgol Camwy (Gaiman – eisteddfod sy'n agored i ysgolion eraill dyffryn Camwy yn ogystal). Hyd y gwyddys, cyllidebau bychain iawn sydd gan bob un o'r rhain ac nid oes sôn am fygythiad i'w dyfodol ond, unwaith eto, maent yn dibynnu ar ymroddiad nifer o unigolion brwd].

**10. <u>Gorsedd y Wladfa</u>.** Cynhaliwyd ei chyfarfod cyntaf ar fore Nadolig 1865 yn Nghaer Antur (Rawson). Bu mewn bodolaeth (gydag ambell fwlch) hyd at y 1930au. Ail sefydlwyd yn Hydref 2001 gan yr Archdderwydd Meirion. Mae GyW yn cynnal cyfarfodydd blynyddol yng Nghylch yr Orsedd, a leolir ym Mharc y Gwladfawyr (nid nepell o gapel Bethel) bob mis Hydref. Hefyd, mae yn cymryd rhan amlwg yn seremonïau Cadeirio Eisteddfod y Wladfa, yn ogystal ag anfon cynrychiolwyr i seremoni'r Coroni. Dichon fod ei dyfodol ynghlwm wrth un EyW.

**11. <u>Undeb Eglwysi Rhyddion y Wladfa</u>.** Mae'r corff hwn yn ymgorffori holl gapeli Cymreig Dyffryn Camwy - ac eithrio Seion Bryn Gwyn, sy'n perthyn i Eglwys Fethodistaidd yr Ariannin ac Eglwys Llanddewi (pob un ohonynt wedi'u sefydlu gan addolwyr Cymraeg eu hiaith). Mae'r Undeb yn gymdeithas elusennol sy'n diogelu holl gapeli'r Wladfa sydd dan ei hadain. Er mai Sbaeneg yw iaith mwyafrif gwasanaethau'r capeli, cynhelir cyfarfodydd achlysurol ynddynt drwy gyfrwng y Gymraeg. O bryd i'w gilydd, y mae CCA yn llwyddo i sicrhau gwasanaeth gweinidogion sy'n teithio o Gymru i gynnal gwasanaethau Cymraeg dros gyfnod o fisoedd ar y tro. Maent hefyd yn ymweld â chartrefi'r selogion, trefniant a werthfawrogir yn enwedig gan y to hŷn.

**12) <u>Taleithiau eraill</u>.**
**a) <u>Río Negro: Choele Choel</u>.** Mae'r ynys hon yn rhan o dalaith Río Negro ond mae llawer o'r trigolion yn ddisgynyddion i Wladfawyr Chubut a ymfudodd yno ar wahoddiad y llywodraeth i'w gwladychu ac i agor y ffosydd dyfrhau ar batrwm rhai dyffryn Camwy. Clywyd yn ddiweddar eu bod hwythau yn awyddus iawn hefyd i gael eu cynnwys yn y dathliadau. Hyd y gwn i, does dim sefydliad Cymreig yno hyd yn hyn. Os yw hyn yn gywir, efallai bod modd dylanwadu arnynt i greu un.

**b) <u>Eraill</u>:** Erbyn hyn mae yna nifer sylweddol o ddisgynyddion y Gwladfawyr yn byw mewn gwahanol daleithiau megis Buenos Aires, Neuquén, Santa Cruz, Mendoza, Córdoba, Santa Fe a Salta. Mae'n debygol fod yna rai mewn taleithiau eraill hefyd. Mae cymdeithasau "Cymreig" yn bodoli mewn ambell ddinas megis Buenos Aires a Mendoza. Dydy hi ddim yn eglur ar hyn o bryd a fydd ganddynt y modd i gysylltu eu hunain â'r dathliadau, ond cyfrifoldeb Pwyllgor y Dathlu yn y Wladfa fydd cadw'r drws ar agor iddynt. Os llwyddir i wireddu rai o'r cynlluniau uchelgeisiol sydd wedi'u crybwyll yn ystod y misoedd diwethaf yn Buenos Aires dylai Cymry'r brifddinas gael y cyfle i fynegi barn ac i gyfrannu i'r trefniadau.

**<u>Y ffordd ymlaen</u>:** Nid yw'n amhosib manteisio ar ddathliadau'r 150mlwyddiant i ddiogelu dyfodol y sefydliadau hyn ac ni chollir dim o'u gosod ar ben rhestr unrhyw geisiadau am gymorth (moesol ac ariannol) a all ddod o goffrau llywodraethau lleol, taleithiol a chenedlaethol yr Ariannin, a hefyd thargedu cwmnïau tramor sy'n gweithio yn Chubut (megis BP) a ffynonellau eraill (os yw'r ffynonellau hynny ar gael yn y cyfnod o ansicrwydd economaidd cyfredol). Dylid chwilio am gymorth pobl a all ddylanwadu arnynt. Nid ein pwyllgor ni ddylai wneud y gwaith ond arweinyddion Cymreig y Wladfa. Ond mae angen arweiniad arnynt, ac efallai bod modd i ni yma ddod o hyd i enwau darpar noddwyr.

Dydw i ddim yn amau y byddai llawer o bobl yn dweud, gyda phob cyfiawnhad, fod yna anghenion llawer mwy na'r rhai a nodir yma, ac rwy'n sicr nad yr un yw blaenoriaethau pob ardal. Ond dydy'r anghenion a nodais uchod ddim yn llai teilwng oherwydd hynny. Bydd yn rhaid i bob ardal gyflwyno'u gweledigaeth ei hun parthed yr hyn y gellir ei gyflawni (neu, o leiaf, ei ddechrau) rhwng nawr a 2015. Mae'n bwysig i ni sicrhau na fydd y dathliadau wedi'u cwblhau heb i Gymry Patagonia, ar hyd ac ar led talaith Chubut, lwyddo i gynnal a chryfhau yr etifeddiaeth a adawodd eu cyndadau iddynt, er mwyn i'w disgynyddion wrth ddathlu'r 200mlwyddiant yn 2065 fedru cofio gyda balchder pam, sut, a gan bwy y gwladychwyd eu talaith. Daw hyn â ni at yr angen mawr i atgoffa arweinyddion y byd addysg yn yr Ariannin y dylai hanes Chubut, a Phatagonia gyfan, gael ei chynnwys yng nghwricwlwm holl sefydliadau addysgol y wlad (cynradd, uwchradd ac uwch), fel rhan o hanes cenedlaethol yr Ariannin. Wedi'r cyfan, sefydlu'r Wladfa a alluogodd y weriniaeth i feddiannu traean o'i thiriogaeth.

Ymddiheuriadau am y llith! Nodais y sylwadau uchod yn unig oherwydd eu bod yn perthyn i feysydd yr wyf yn ymboeni amdanynt, ac am fy mod i'n teimlo eu bod yn haeddu cael eu dwyn i sylw llywodraethau taleithiol a chenedlaethol Archentina a hefyd i sylw darpar noddwyr. Nid ydynt mwy nag awgrymiadau, a gall pobl eraill siarad amdanynt gyda mwy o awdurdod nag sydd gennyf i.

**EM: 09.05.2012**